## CADER IDRIS

Fe welir sawl bwlch pwysig yn y rhanbarth mynyddig hwn, bylchau sy'n caniatáu teithio rhwng y Gogledd a'r De. Mae rhai o'r llwybrau wedi colli eu pwysigrwydd wrth i ddulliau teithio newid. Fodd bynnag, nid yw'r bwlch sy'n caniatáu i ffordd cyn-hanesyddol Y Ffordd Ddu i osgoi Cader Idris yn cael ei enwi fel bwlch, fe'i gelwir yn syml yn Nhrawsfynydd ac mae'r enw wedi'i roi i fryn cyfagos.

**Bwlch Aran SH 734136**
Llechwedd ar osgo i fyny'r mynydd yw'r bwlch, uwch llyn a enwir yn Llyn Aran; mae *aran* yn gyfeiriad at 'man uchel, uchder'. Nid yw'r enw i'w weld ar fapiau'r AO.

**Bwlch Cau SH 709125**
Dyma'r pwynt isaf ar y grib rhwng Mynydd Pencoed a Chader Idris; er nad yw yn y sefyllfa gywir ar y map OS ar hyn o bryd.

**Bwlch Coch SH 749157**
Nid oes enw ar y mapiau heddiw, ond mae'r enw i'w weld fel enw fferm Bwlch Coch. Yr oedd y bwlch ar lwybr pwysig ar un adeg, yn mynd tuag at Ddolgellau o'r De. Mae'n cael ei nodi ar fap John Evans o 1795 o Ogledd Cymru.

**Bwlch Cyfyng SH 672065**
Dyma'r enw am y culhau yn y dyffryn wrth fynd o Abergynolwyn tuag at Dywyn; Mae'r gair *cyfyng* 'cul, cyfyngedig' yn diffinio'r safle'n berffaith. Bwlch gyving 1597 Llawysgrifau Maesyneuadd, Bulch Kyfinge 1600 Llawysgrifau Elwes, Bwlch-y-gyfyng 1837 AO.

**Bwlch Llyn Bach SH 755137**
Bwlch Tal-y-llyn yw'r enw a roddir yn gyffredinol i'r adwy heddiw. Fodd bynnag, yr hen enw oedd Bwlch y Llyn Bach; fe ddiflannodd y llyn bach wrth adeiladu'r ffordd bresennol. Enw hŷn ar y llyn oedd Llyn y Tri Greyenyn, [*greyenyn* 'cerrig'], sef y tair craig enfawr sydd i'w gweld ger y ffordd o hyd. Yn ôl y chwedl, teimlai'r cawr Idris y cerrig yn ei esgidiau a'u lluchio allan yn y fan hon.

**Bwlch Oerddrws SH 795172**
Thema cyffredin iawn yn enwau bylchau mynyddig yw'r gwynt a'i effaith; gyda'r gwynt yn gwneud y bylchau yn fannau oer iawn. Dyma un enghraifft o hyn, gyda'r disgrifion *oer* + *drws* 'adwy'. Mae'r bwlch wedi bod yn un pwysig ers canrifoedd.

**Bwlch Rhiw Gwredydd SH 691135**
Mae'r enw yn deillio o ddefnydd y bwlch, ar adegau, i symud da byw; *rhiw* 'llethr' + *gyriedydd* 'gyrrwr, porthmyn'. Gyriedydd yw'r enw lleol ar y llechwedd sy'n ymestyn tuag at y bwlch a hwn oedd ar y mapiau cynnar. Rhiw'r-gyriedydd 1837 AO.

**Bwlch Siglen SH 837137**
*Siglen* 'cors, tir mawnog', sy'n deillio o'r teimlad *sigledig* 'crynu' wrth groesi tir corsiog; teimlad sydd yn gywir i'r lleoliad.

**Bwlch Ty'n y Fach SH 685100**
Codwyd yr enw o'r fferm islaw.

**Bwlch y Cŵn SH 705131**
Yr enwau eraill ar yr un bwlch yw Bwlch y Gwynt a Bwlch Cyfrwy, cyfrwy 'sedd march, gobell'.

**Bwlch y Foty SH 669127**

Mynyddoedd.co.uk

Cwtogiad y gair hafoty, ei hynan yn gwtogiad o hafod + ty.

**Bwlch y Tri Arglwydd SH 809097**
Mae'r enw tri + arglwydd yn arwydd bod anghydfod wedi bod yn yr ardal ers talwm; mae'n dal i fod ar ffin heddiw.

Mynyddoedd.co.uk